Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.11 Cynllunio Ymgyrch

Trosolwg

Bydd y daflen wybodaeth hon yn trafod y gwahaniaeth rhwng ymgyrchu a lobïo, ynghyd ag unrhyw bwyntiau ar sut y dylai grwpiau trydydd sector gynllunio'u hymgyrch, ystyriaeth Canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar y mater, a ble i gael gafael ar fwy o wybodaeth.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ymgyrchu a lobïo?

Mae'r termau yma yn aml yn cael eu defnyddio'n ymgyfnewidiol, ond mae'n werth ystyried y gwahaniaeth rhyngddynt, a meddwl os yw un neu'r ddau yn gweddu eich amcanion chi.

Mae lobïo yn ymarfer unigolion a mudiadau i geisio dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau politicaidd. Mae'r enw yn dod o'r lobïau a'r cynteddau yn y Senedd ble mae'r AS a'r Arglwyddi yn ymgynnull cyn ac ar ôl dadleuon yn y Tai Cyffredin ac Arglwyddi. Yn draddodiadol, mae pobl sy'n dymuno dylanwadu ar farn yr AS neu'r Arglwyddi wedi mynychu'r lobïau i geisio perswadio aelodau am ddilysrwydd barn benodol. Fodd bynnag, erbyn heddiw, mae'r term lobïo yn cyfeirio'n fwy penodol at waith cwmnïau preifat a elwir yn lobïwyr, a gyflogir gan fudiadau i gynrychioli barn y gwneuthurwyr penderfyniadau politicaidd. Gellir gwneud y gwaith yma gan swyddogion ymgyrchu'r sector gwirfoddol, swyddogion materion cyhoeddus neu swyddogion llywodraethol er mwyn ennill cefnogaeth i waith ymgyrchu'r elusen a dylanwadu ar y Llywodraeth (neu'r Cynulliad) i wneud penderfyniadau.

Ar y llaw arall, mae ymgyrchu yn broses o wneud a defnyddio gweithredoedd trefnus ar faterion penodol gyda'r bwriad o newid polisïau ymddygiad grwpiau a / neu sefydliadau.

Felly, gellir defnyddio technegau lobïo fel rhan yn fwy o broses ymgyrchu.

Beth sydd gan y Comisiwn Elusennau ei ddweud am ymgyrchu?

Mae gan rai elusennau cofrestredig bryderon am hyd y gwaith ymgyrchu a wnânt, gan gredu nad yw'r Comisiwn Elusennau yn caniatáu gweithgareddau ymgyrchu. Mae'r Comisiwn yn darparu cyfarwyddyd hynod o lawn ar y mater yma yn eu dogfen:

CC9 - Speaking Out - Guidance on Campaigning and Political Activity by Charities - Gellir dod o hyd i hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau ar www.charity-commission.gov.uk/publications/cc9.aspx? a dylech wirio hwn os oes gennych unrhyw amheuon, ond yn gyffredinol, safle'r Comisiwn yw bod gweithgaredd ymgyrchu a pholiticaidd (ond nid gweithgaredd plaid boliticaidd) yn rhan ddilys a gwerthfawr o weithgareddau elusen, ble bynnag mae'n digwydd i gefnogi traddodi'i amcan elusennol.

Ond ni all fod yn weithgaredd unigol neu barhaus elusen, nac ychwaith fod yn unig reswm dros fodolaeth elusen. Mae'r Comisiwn yn edrych yn gadarnhaol ar waith ymgyrchu yng nghyd-destun dilyn amcanion elusennol, a gellir crynhoi ei safle yn y datganiad canlynol:

'The experience of charities means that it is right that they should have a strong and assertive voice. Often they speak for those who are powerless, and cannot make their case themselves. Sometimes charities confront extreme social injustice, which they will want to tackle head-on. The work that charities do, and the major role they play in public life, is something they should be proud of.'

Cynllunio ymgyrch – materion i'w hystyried

Y gair hollbwysig yma yw 'cynllunio'. Dylech dreulio amser yn cynllunio eich ymgyrch cyn dechrau ar weithgareddau ad hoc. Bydd cymryd amser i feddwl am y cylch ymgyrchu yn rhoi mwy o gyfle i chi fod yn llwyddiannus. Un neu fwy o'r peryglon yw neidio'n syth i feddwl am ba dechnegau a thactegau ymgyrchu i'w defnyddio yn lle cynllunio yn gyntaf. Dylai dewis y dechneg fod yn un o'r camau olaf yn y broses gynllunio, am y dylent ddeillio o'r gwaith cynllunio.

Dyma rai o'r materion allweddol y dylech feddwl amdanynt wrth gynllunio eich ymgyrch:

- **Dewiswch eich mater yn ofalus**
  Pa faterion sy'n bwysig i'ch cleientiaid / budd-ddeiliaid? Oes yna gyfle i gyflawni newid - beth sy'n digwydd yn yr amgylchfyd allanol sy'n ei wneud yn amser da / gwael i ymgyrchu? Oes yna gonsensws am beth ddylid ei wneud? Allwch chi gynnig datrysiad yn hytrach na phroblem?
  Mae'n llawer haws i ymgyrchu dros ddatrysiad, h.y. pethau penodol yr ydych eisiau eu newid neu weithredu, yn hytrach na dweud nad ydych yn hoffi pethau fel maen nhw ar hyn o bryd.

- **Adnoddau / deunyddiau**
  Pa adnoddau sydd gennych chi, e.e. staff / gwirfoddolwyr a chefnogwyr?
  Pa adnoddau ydych chi eisiau, e.e. deunyddiau ymgyrchu, cyhoeddiadau?
  Oes cyllideb arbennig gennych chi ar gyfer y gwaith?

- **Datblygwch sail tystiolaeth gref**
  Mae cyfreithlondeb yn hanfodol – ydy'ch tystiolaeth yn dod o arbenigedd technegol a / neu brofiad cynrychiolydd?
  Oes angen i chi gomisiynu ymchwil neu ymchwilio eich hunan?
  Oes yna ffynonellau gwybodaeth / ystadegol arall y gellwch eu defnyddio?
  Sicrhewch fod eich ymchwil yn berthnasol, e.e. mae angen ystadegau Cymreig ar gyfer ymgyrch Gymreig.
  Ceisiwch chwilio am astudiaethau achos ac esiamplau gwir - gall y rhain fod yn hynod bwerus ac yn fwy tebygol o gael eu trafod gan y cyfryngau.

- **Sefydlwch eich cynulleidfa darged**
  Sicrhewch eich bod yn mynd at y bobl sydd â'r pŵer i newid pethau - hollbwysig mewn cyd-destun datganoli, pan yw peth cyfrifoldeb yng Nghymru a pheth yn y DU.
  Efallai byddwch eisiau ystyried targedau cyntaf ac eilradd.
  Meddyliwch am ffyrdd i ddylanwadu'r cynulleidfaoedd yma – dyma ble allech chi ddechrau meddwl os yw technegau lobïo yn fwy addas.

- **Sefydlwch amcanion yr ymgyrch a negeseuon allweddol**
  Fframiwch eich negeseuon yn addas ar gyfer eich cynulleidfa. Er enghraifft, gall papur newydd tabloid ymateb yn well i stori ddynol emosiynol, neu byddai gwas sifil angen gwybodaeth fwy ffeithiol.
  Byddwch yn benodol – meddyliwch am fân newidiadau penodol yr hoffech eu gweld, a datblygwch rai negeseuon allweddol a ellir eu trosglwyddo'n syml ac effeithiol.
  Ceisiwch ffocysu ar ddatrysiadau. *Cynigiwch* rywbeth bydd y gwneuthurwyr penderfyniadau yn gorfod eu *gwrthwynebu.*

- **Ystyriwch ffrindiau / budd-ddeiliaid posib**
  Mae cynghreiriau yn gallu bod yn effeithiol iawn yn enwedig os ydynt ar draws y sectorau a / neu'n annisgwyl.
  Pa grwpiau eraill a effeithir gan eich ymgyrch?
  Pwy all fod â diddordeb yn hyn? Gall ffrindiau gwleidyddol fod yn ddefnyddiol, felly edrychwch ar feysydd diddordeb y gwleidyddion.

- **Ystyriwch wrthwynebu posib i'ch ymgyrch ac unrhyw rwystrau**
  Pwy all wrthwynebu eich ymgyrch - allwch chi gydweithio o'r dechrau i leddfu pryderon? Os na, allwch chi ragweld eu pryderon a bod yn barod i ymateb?
  Byddwch yn ymwybodol o'r amgylchedd allanol a sut mae newidiadau gwleidyddol yn medru effeithio ar eich ymgyrch.

- **Datblygwch gynllun gweithgareddau gyda llinell amser**
  Beth yn union ydych chi'n mynd i wneud? Mae yna lu o dechnegau ymgyrchu; dewiswch y rhai sy'n iawn ar eich cyfer, gan gofio eich cynhwysedd, eich mater, eich cynulleidfa a'ch amcanion. Mae technegau ymgyrchu a lobïo ar daflen wybodaeth arall ond mae'n werth cofio gellir categoreiddio'r technegau yn ôl eich dymuniad i redeg ymgyrch 'mewnol' neu 'allanol'. Ymgyrch mewnol yw un bel defnyddiwch sianelau sefydledig (cyfarfodydd dibwys) i lobio'ch targed. Ymgyrch

allanol yw dull mwy gwrthryfelgar wedi'i seilio ar ymladd i gael eich llais wedi'i glywed trwy symud cefnogaeth gyhoeddus i newid pethau.

- **Ystyriwch sut fyddwch yn traddodi neges eich ymgyrch a chasglu cefnogaeth**
  Sut fyddwch chi'n defnyddio'r cyfryngau, os o gwbl?
  Allech chi ddatblygu e-ymgyrch?
  Sut allech chi ddefnyddio'r we?
  Ydych chi'n cynhyrchu cyhoeddusrwydd / adroddiadau, ac os felly, beth wnewch chi gyda nhw?
  Sut fyddwch chi'n lansio'r ymgyrch?

- **Monitro cynnydd a gwerthuso**
  Beth yw llwyddiant?
  Cymerwch amser i adlewyrchu a gwerthuso a newid yr ymgyrch os oes angen.
  Ceisiwch fonitro ble mae'r ymgyrch wedi cael effaith e.e. os ydych yn anfon briff at y Cynulliad. Mae aelodau yn gwirio os ydynt wedi dyfynnu ohono neu ei ddefnyddio.
  Dathlwch bob llwyddiant ond cofiwch fod newid yn medru cymryd amser hir i ddigwydd.

Gwybodaeth bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Gwefan y Comisiwn Elusennau:
www.charity-commission.gov.uk/

National Council for Voluntary Organisations Campaigning Effectiveness Team:
www.ncvo-vol.org.uk/campaigningeffectiveness/index.asp

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 enquiries@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:17/06/2011

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk